Trydan Gwyrdd Cymru

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Cymunedol (Cymraeg yn Hanfodol)

Hybrid / Llawn Amser
Dyddiad Medi 2025

Cyfeirnod: TGCCCEO



# Cynnwys

Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru....3
Gwybodaeth amdanom ni....4
Gwybodaeth am y swydd....6
Telerau ac amodau'r penodiad....9
Manteision eraill....9
Amserlen ddangosol....9
Sut i ymgeisio....10
Rhagor o wybodaeth am y swydd....10
Cydraddoldeb ac amrywiaeth....10
Y Gymraeg....11
Caniatâd data....11
Ffurflen monitro amrywiaeth....11

# Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb mewn gwneud cais am y swydd hon gyda Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan). Sefydlwyd Trydan ym mis Hydref 2023 i gyflymu'r broses o gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystâd gyhoeddus Cymru gyda'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gorau posibl yn y tymor hir i bobl Cymru. Mae hwn yn fuddsoddiad cynaliadwy hirdymor a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n bwriadu rhoi sero net a chymunedau Cymru wrth wraidd y newid sydd ei angen i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol newid hinsawdd.

Ein nod yw cael un gigawat o ynni glân sy'n eiddo lleol ac a gynhyrchir yn lleol erbyn 2040. Bydd Trydan yn cynyddu'r broses o gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy ar draws ystâd gyhoeddus Cymru, yn bennaf trwy dechnolegau gwynt ar y tir a solar ffotofoltäig gyda'r cyfle i integreiddio technolegau storio. Mae gennym gyfle gwirioneddol yma i gynhyrchu incwm a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi i wella bywydau pobl yng Nghymru yn ogystal â chreu swyddi ynni glân o ansawdd da. Bydd Trydan yn helpu i yrru dull newydd o gyflawni manteision o ynni adnewyddadwy sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau.

Wrth i'n sefydliad barhau i dyfu, rydym yn chwilio am Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Cymunedol i ymuno â'n tîm. Mae'r rôl hon yn gyfle ardderchog i weithiwr proffesiynol cyfathrebu sydd â phrofiad profedig mewn ymgysylltu â'r cyhoedd – yn ddelfrydol o fewn y sectorau ynni adnewyddadwy neu seilwaith. Rydym yn chwilio am rywun sy'n angerddol am helpu i ddarparu atebion ynni cynaliadwy i Gymru, trwy gydweithio'n ystyrlon â'i chymunedau.



Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i Gymru gyflymu ei thaith tuag at ddatgarboneiddio trwy ddatblygu a defnyddio'r prosiectau ynni adnewyddadwy cywir, yn y lleoedd cywir. Ond rhaid i'r newid hwn hefyd gynnig manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach i Gymru. Rydym yn chwilio am rywun sy'n rhannu ein huchelgais a'n hymrwymiad i'r diben hwn.

Mae hwn yn gyfle unigryw i unigolyn brwdfrydig sy'n chwilio am her newydd a'r cyfle i helpu i lunio dyfodol mwy cynaliadwy o'r dechrau'n deg. Os ydych chi'n credu bod eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r rôl hon, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Ceir manylion llawn y swydd yn y pecyn gwybodaeth ymgeiswyr hwn. Gobeithiwn y cewch fewnwelediad ohono - ac y byddwch yn cael eich ysbrydoli i gymryd y cam nesaf wrth geisio ymuno â ni.

Richard Evans,
**Prif Swyddog Gweithredol**

# Gwybodaeth amdanom ni

## Cefndir

Cafodd Trydan ei gorffori ym mis Hydref 2023, fel cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau ac yn eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o gyflymu datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy ar Ystâd Gyhoeddus Cymru a chynyddu'r gwerth i Gymru o'r gweithgaredd hwn, a fyddai'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ac amcanion Gweinidogol.

Yr amcan strategol cyffredinol ar gyfer y cwmni yw gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru trwy ddarparu un gigawat o ynni adnewyddadwy newydd sy'n eiddo lleol erbyn 2040. Bydd model cyflawni Trydan yn sicrhau bod gwerth ariannol y prosiectau hyn yn cael ei gadw yng Nghymru a bod eu hallbynnau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn cyfrannu at ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i bobl Cymru.

## Y sefyllfa bresennol

Mae mwyafrif y tîm cychwynnol wedi cael ei recriwtio ac mae prif weithgareddau sefydlu’r cwmni wedi'u cwblhau. Sefydlwyd bwrdd parhaol newydd ym mis Mai 2024. Llŷr Roberts sy'n cadeirio bwrdd Trydan ac mae'n cynnwys pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol. Lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet y cwmni'n ffurfiol ar 15 Gorffennaf 2024.

Mae Trydan bellach yn datblygu portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy yn y cyfnod dichonoldeb hwyr a bydd yn cynyddu gweithgarwch datblygu wrth i ni barhau i dyfu ein tîm datblygu. Mae portffolio presennol y prosiectau yn canolbwyntio ar ynni gwynt ar y tir, er ein bod yn disgwyl i systemau storio ynni batri a ffotofoltäig solar fod yn rhan o'r portffolio.

## Lleoliad

Bydd y cwmni'n gweithredu gan ddefnyddio model hybrid lle bydd staff yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio o gartref. Bydd cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ar y cyd yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru mewn gwahanol leoliadau swyddfeydd ledled Cymru. Bydd Pencadlys y Cwmni yn gweithredu o Ferthyr Tudful. Bydd angen i ddeiliad y rôl fod ar gael i weithio yn swyddfa Merthyr Tudful ar sail hybrid. Rydym yn agored i weithio hyblyg, a gellir trafod hyn yn ystod unrhyw un o'r camau recriwtio.

## Rhagor o wybodaeth am Trydan Gwyrdd Cymru

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y cwmni: Hafan | Trydan Gwyrdd Cymru.

# Gwybodaeth am y swydd

## Diben y swydd

Byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth lunio a chyflawni ein strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu corfforaethol, wrth gefnogi negeseuon prosiectau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn mentrau cyfredol a mentrau sydd ar ddod yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Yn y rhanbarthau hyn, mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang ac yn aml yn brif iaith cymunedau lleol. Er mwyn sicrhau ymgysylltu ystyrlon a chynhwysol â thrigolion, busnesau a rhanddeiliaid, mae'r rôl yn gofyn am sgiliau rhyngbersonol ac iaith rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Yn ddelfrydol, bydd ymgeiswyr wedi'u lleoli o fewn cyrraedd hawdd i ogledd a chanolbarth Cymru. Disgwylir i ddeiliad y swydd hefyd fynychu swyddfeydd Merthyr Tudful o leiaf ddwywaith y mis.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â brwdfrydedd gwirioneddol dros lunio a chyflawni strategaethau ac adnoddau cyfathrebu effeithiol. Mae hyn yn cynnwys drafftio, adolygu a chyfrannu at amrywiaeth o negeseuon wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd cenedlaethol a lleol. Byddwch hefyd yn cefnogi prosesau cyfranogol sy'n galluogi aelodau'r gymuned i ymgysylltu'n ystyrlon â datblygiadau perthnasol prosiectau.

Dylech fod yn wrandäwr gweithredol ac empathig, gyda diddordeb naturiol mewn pobl o bob cefndir – ar draws grwpiau oedran, lleoliadau trefol a gwledig, ac â safbwyntiau ac anghenion amrywiol.

Yn rhywun sy'n egnïol ac yn greadigol, byddwch yn frwd dros faterion cymunedol ac yn chwarae rhan allweddol wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ac aelodau'r gymuned a chadw eu diddordeb.

Yn y rôl hon, byddwch yn cydweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol - sy'n cynnwys cydweithwyr mewnol a phartneriaid allanol - gan weithio gyda'ch gilydd i gefnogi datblygiad llwyddiannus ein prosiectau ffermydd gwynt yng ngogledd a chanolbarth Cymru. O ystyried tirwedd ieithyddol y rhanbarthau hyn, mae sgiliau dwyieithog rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn hanfodol. Byddwch hefyd yn cyfrannu at fentrau cyfathrebu corfforaethol ehangach.

## Cyd-destun Sefydliadol

Mae'r rôl yn atebol i Bennaeth Cynnwys y Cyhoedd o fewn y Tîm Ymgysylltu, lle mae'r holl negeseuon corfforaethol, strategaethau ymgysylltu cyffredinol, a materion cyfryngau'n cael eu cydlynu. Byddwch hefyd wedi'ch ymgorffori mewn un neu fwy o Dimau Prosiect, gan gefnogi cyflawniad yn erbyn amserlenni a gofynion a osodir gan Reolwyr Prosiectau. Efallai y bydd angen cydweithio ag ymgynghorwyr allanol hefyd, yn dibynnu ar anghenion prosiectau.

## Prif Ddyletswyddau

### Bydd eich prif dasgau a dyletswyddau'n cynnwys:

- Dylunio, adnewyddu a chyflawni strategaethau a chynlluniau ymgysylltu a chyfathrebu prosiectau – naill ai'n annibynnol neu mewn cydweithrediad ag ymgynghorwyr.
- Datblygu a chynhyrchu deunyddiau cyfathrebu creadigol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, sy'n tynnu sylw at fanteision ehangach prosiectau i gymunedau lleol a rhanddeiliaid.
- Ysgrifennu cynnwys golygyddol ar gyfer gwefan y prosiect a llwyfannau eraill, gan gynnwys erthyglau, postiadau blog ac adroddiadau.
- Drafftio a chyhoeddi datganiadau i'r wasg a meithrin perthnasoedd cryf â'r cyfryngau lleol.
- Sefydlu a rheoli sianeli cyfryngau cymdeithasol y prosiect (lle bo'n berthnasol) a diweddaru gwefan y prosiect yn rheolaidd.
- Creu a chynnal adnoddau cyfathrebu fel taflenni, llyfrynnau, cyflwyniadau.
- Trefnu digwyddiadau lleol i gefnogi tîm y prosiect (e.e. cyfarfodydd B2B, cynadleddau, ymgysylltiadau dros dro), gan gynnwys cydlynu â chyflenwyr (e.e. gosod stondinau, arlwyo).
- Rheoli perthnasoedd â'r asiantaethau cyfathrebu lleol sy'n cefnogi cyflawni'r prosiect.
- Ymdrin â thasgau gweinyddol fel prosesu anfonebau.

# Manylion y person

### Sgiliau a phrofiad angenrheidiol:

- Sgiliau rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r cymunedau lleol a rhanddeiliaid lleol.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Addysg hyd at lefel gradd mewn disgyblaeth gysylltiedig fel Cyfathrebu, Newyddiaduraeth, Cymraeg, Saesneg, Gwyddorau Cymdeithasol.
- O leiaf bum mlynedd o brofiad mewn rôl sy'n gysylltiedig â chyfathrebu; mae profiad mewn datblygu ynni neu seilwaith mawr yn ddymunol ond nid yn hanfodol.
- Trwydded yrru lawn y DU, gyda'r gallu i deithio ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus.
- Lefel uchel o lythrennedd TG a digidol, gan gynnwys hyfedredd mewn meddalwedd cyfathrebu perthnasol (e.e. Umbraco, InDesign, Illustrator, Photoshop) a'r hyder i gefnogi eraill i wella cyfathrebu digidol yn fewnol ac yn allanol.
- Creadigrwydd profedig, gyda hanes o gynhyrchu syniadau cynnwys a chysyniadau digwyddiadau deniadol.

- Profiad o gynhyrchu deunyddiau cyfathrebu a chynnwys digidol wedi'u teilwra (e.e. gwefan prosiect, erthyglau cynnwys, digwyddiadau lleol).
- Sgiliau trefnu cryf, gyda'r gallu i reoli tasgau lluosog a rhoi sylw i fanylion.

Sgiliau a phrofiad dymunol:

- Sgiliau hwyluso, gyda dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng ymgysylltu, cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus.
- Profiad o weithio ym maes cyfathrebu o fewn y sector ynni neu ar brosiectau seilwaith mawr.
- Meddu ar rwydwaith dda ac wedi'ch gwreiddio yn y gogledd/canolbarth, neu â diddordeb amlwg mewn bywyd lleol a deinameg cymunedol yn yr ardaloedd hyn.

# Telerau ac amodau'r penodiad

- Cyflog: Cystadleuol yn dibynnu ar sgil a phrofiad
- Math o Swydd: Parhaol
- Oriau'r wythnos: Llawn amser – 37 awr yr wythnos
- Gwyliau Blynyddol: 28 diwrnod yn codi i 29 diwrnod ar ôl dwy flynedd o wasanaeth a 30 diwrnod ar ôl tair blynedd o wasanaeth
- Gwyliau Cyhoeddus: 8 diwrnod y flwyddyn

# Manteision eraill

- Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig
- Gweithio hyblyg
- Cynllun aberthu cyflog cerbydau Trydan
- Amgylchedd gwaith cydweithredol, cynhwysol, a hyblyg

# Amserlen ddangosol

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **16:00** ar **26/09/2025** fan bellaf. Y dyddiad cyfweliad disgwyliedig yw wythnos yn dechrau ar **13/10/2025** neu wythnos yn dechrau ar **20/10/2025**. Bydd hyn yn cael ei gwblhau ar-lein. Os nad yw'r dyddiad hwn yn addas, rhowch wybod i ni ar eich cais. **Ni fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau uchod yn cael eu hystyried.**

# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, darparwch y canlynol:

1. CV cynhwysfawr (yn Gymraeg neu'n Saesneg) yn nodi eich hanes gyrfa gyda'r prif gyfrifoldebau a'ch cyflawniadau, ynghyd â manylion eich pecyn cyflog presennol.
2. Datganiad ategol ar ffurf llythyr eglurhaol o ddim mwy na dwy ochr A4, yn egluro sut rydych chi'n credu bod eich sgiliau a'ch profiad yn cyd. Rydym yn gofyn i chi ddarparu'r llythyr hwn yn Gymraeg.
3. Manylion dau ganolwr proffesiynol ynghyd â datganiad byr o'u gallu a thros ba gyfnod maen nhw wedi'ch adnabod, a disgwylir i un ohonynt fod yn gyflogwr presennol neu ddiwethaf i chi. Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr heb eich caniatâd ymlaen llaw.
4. Ffurflen monitro amrywiaeth wedi'i chwblhau.
5. Nodwch yn glir yn eich llythyr eglurhaol, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, a ydych chi am i'ch cyfweliad gael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Ar ôl cwblhau eich cais, anfonwch ef ymlaen i'r cyfeiriad e-bost canlynol: swyddi@trydangwyrddcymru.wales

# Rhagor o wybodaeth am y swydd

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar y broses benodi, os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch neu os hoffech gael trafodaeth anffurfiol a chyfrinachol, anfonwch e-bost at swyddi@trydangwyrddcymru.wales i ofyn am alwad a byddwn yn falch o gysylltu'n ôl â chi. Byddwn yn parchu preifatrwydd unrhyw gyswllt cychwynnol neu fynegiant o ddiddordeb yn y rôl hon, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Nid ydym yn gwahaniaethu ar sail oedran, hil, crefydd, lliw, tarddiad cenedlaethol, rhyw, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal, o'r un rhyw neu bartneriaeth sifil), cyfeiriadedd rhywiol, nac anabledd.

# Y Gymraeg

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ein bywydau beunyddiol a'n gweithleoedd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflwyno eu ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu hasesu ar sail gyfartal â cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg. Gallwch hefyd ofyn am gyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Os hoffech i'ch cyfweliad gael ei gynnal yn y Gymraeg, cofiwch gynnwys eich cais yn eich llythyr eglurhaol.

# Caniatâd data

Byddwn yn prosesu'r data a roddwch i ni wrth ymgeisio am y rôl hon yn ôl yr angen ar gyfer cyflawni'r dasg hon, a gyflawnir er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn rhannu'r data gydag unrhyw broseswyr data trydydd parti a gyflogir ar ein rhan i ddarparu'r gwasanaeth recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.trydangwyrddcymru.cymru/preifatrwydd/

# Ffurflen monitro amrywiaeth

Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi ymrwymo i werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer ein gweithlu. Er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni'n llawn, mae'n hanfodol ein bod yn monitro ein gweithdrefnau recriwtio a dethol. Felly, hoffem i chi gwblhau'r holiadur sydd ynghlwm.

**Diben a Manteision**

Mae angen i ni ddarganfod a yw ein polisi'n gweithio'n ymarferol a sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn y ffordd rydym yn penodi ac yn dyrchafu staff. Diben monitro yw nodi tueddiadau sy'n dynodi problemau, fel y gallwn eu cywiro er mwyn darparu proses benodi decach a mwy effeithiol i bob ymgeisydd.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth rwy'n ei rhoi?**

- Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin **yn hollol gyfrinachol** ac ni fydd yn effeithio ar eich cais mewn unrhyw ffordd.
- Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau ystadegol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o ffigurau dienw, y gallwn fonitro niferoedd ein hymgeiswyr a chanlyniadau ein prosesau recriwtio a dethol drwyddynt.
- Dim ond y rhai sy'n monitro hysbysebion swyddi fydd â mynediad at y data. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n gwbl ddienw, ond mae enwau'n cael eu cynnwys ar ffurflenni i alluogi croeswirio rhwng y ffurflenni a'r gwaith papur gan ein gweithwyr

proffesiynol recriwtio.

- **Ni** fydd staff sy'n ymwneud â didoli a chyfweld ar gyfer y swydd yn gweld eich holiadur.
- Ni fydd y wybodaeth a gesglir yn arwain at system gwota nac yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

**Ein helpu ni i'ch helpu chi**

Gwerthfawrogir eich cydweithrediad yn fawr; helpwch ni i wella cyfleoedd cyfartal. Rydym yn annog **pob** ymgeisydd yn gryf i lenwi, cadw ar wahân a dychwelyd yr holiadur sydd ynghlwm ynghyd ag adrannau eraill eich dogfennaeth ymgeisio.

Diolch am eich cydweithrediad.